**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**21 Mawrth 2011**

**ALLDRO AMCANOL 2010-2011**

**Adroddiad gan y Trysorydd, Ken Finch**

## Pwrpas yr Adroddiad

1 Pwrpas yr adroddiad yw rhoi amcangyfrif i Aelodau o'r alldro amcanol ar gyfer blwyddyn ariannol 2010-2011.

## Cyflwyniad

2 Caiff gwariant yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub a thynnir sylw at unrhyw amrywiant disgwyliedig mor fuan â phosibl fel bod modd gweithredu camau i sicrhau nad oes unrhyw risg ariannol i'r Awdurdod. Ar hyn o bryd mae'n ymddangos y bydd £345,782 o danwariant. Mae'r dadansoddiad manwl yn Atodiad a dangosir unrhyw danwariant ag arwydd minws (-).

3 Mae'r tanwariant a ragwelir yn cael ei reoli yn y flwyddyn a bydd yn cael ei neilltuo mewn cronfa cyffredinol fydd yn rhoi peth sicrwydd fod cyllid ar gael i gynorthwyo gydag unrhyw ofynion annisgwyliadwy ar wariant yn y dyfodol.

## Amrywiant y Gyllideb

4 Mae cyfran helaeth o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymwneud â thâl ac mae rhagolygon y bydd tanwariant net yn y maes hwn eleni. Bydd tanwariant ar gyllideb y staff heb wisg oherwydd na benodwyd i rai o'r swyddi Diogelwch Tân Cymunedol ychwanegol a ariannwyd o arbedion swyddi ALP.

5 Mae'r tanwariant a ragwelir ar gyfer diffoddwyr tân rhan amser yn gymharol fychan, sef £65k. Dylai Aelodau hefyd fod yn ymwybodol fod y canlyniad yn seiliedig ar lefelau gweithgaredd presennol sy'n gymharol isel ac os oes nifer o ddigwyddiadau mawr yn ystod y mis nesaf, gall y tanwariant ar ddiffoddwyr tân dros dro fod yn sylweddol llai.

6 Bydd gorwariant ar y gyllideb pensiynau oherwydd rhai ymddeoliadau oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r rhain yn rhan o'r rhagamcan gwreiddiol ac nid ydynt wedi'u hariannu o'r cyfrif pensiwn.

7 Y rheswm dros y gost ychwanegol ar gyfer Eiddo, Trwsio a Chynnal yw fod angen llogi gweithdy ychwanegol ar gyfer yr adran Fflyd oherwydd prinder cyfleusterau oedd yn amharu ar ddarpariaeth y gwasanaeth.

8 Dan y pennawd Cyflenwad a Gwasanaethau rhagwelir ar hyn o bryd y bydd tanwariant ar gyfer costau Cyfathrebu a Chyfrifiaduron oherwydd oedi yng Ngham 2 y gwaith datblygu sydd wedi arwain at arbedion yn y flwyddyn bresennol. Bwriadwyd y byddai'r gwariant ychwanegol ar wisgoedd yn cael ei dalu o gronfa a glustnodwyd ar ddiwedd y llynedd, ond oherwydd y tanwariant a ragwelir, ni fydd angen defnyddio'r gronfa hon.

9 Y rheswm dros y tanwariant ar ffioedd Archwilio yw swm ffioedd y flwyddyn bresennol o'i gymharu â chronfa'r flwyddyn flaenorol a or-amcangyfrifwyd gan arwain at lai o gostau yn y flwyddyn ariannol hon.

10 Bydd gorwariant yn y gyllideb prydlesu oherwydd fod rhai ffioedd prydlesu eilaidd yn uwch nag a ragwelwyd a bod rhai offer wedi'u prynu o brydlesau a ddaeth i ben.

11 Ni fydd yr incwm llogau cymaint â'r rhagamcanion oherwydd fod y cyfraddau llog ar eu hisaf erioed. Ond gwrthbwyswyd hyn gydag arbedion ar Gyllido Cyfalaf yn sgil ad-drefnu rhaglen gyfalaf 2009/2010 ac arbedion ar dalu llogau ar fenthyciadau sydd wedi'u had-dalu.

12 Mae’r incwm Cynllunio rhag Argyfwng yn ad-daliadau oddi wrth y Cynulliad ar gyfer Prosiectau arbennig. Mae hwn wedi lleihau oherwydd newidiadau mewn cyllid ar gyfer y rhaglen Dimensiynau Newydd.

13 Bu lleihad yn yr incwm a gafwyd trwy gynnal cyrsiau hyfforddiant allanol, yn enwedig diogelwch tân masnachol. Penderfynwyd atal y gwasanaeth hwn oherwydd penderfynwyd y gellir gwneud defnydd mwy effeithiol o’r adnoddau trwy roi neges diogelwch tân cymunedol i’r gymuned fusnes yn gyffredinol.

**ARGYMHELLIAD**

14 Bod yr Aelodau’n nodi amcangyfrif y tanwariant ac yn cadarnhau y bydd yn cael ei ddal fel cronfa gyffredinol ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2010/11 os fydd y tuedd cyfredol mewn gwariant yn parhau.